



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyrol 2: 10247 (Rhan 1)

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

Annwyl Mrs Fonesig Ustus Nerys Jefford,

Gobeithio eich bod chi a'ch holl dîm yn cadw'n dda a diolch am eich gwaith. Os gwelwch yn dda, a fyddech cystal â chadw fy holl fanylion ac ati yn breifat- diolch. O ystyried Cymru fel chwe gwahanol ran/ rhanbarth i edrych ar y rhain ac ystyried yr hyn y mae'r ardaloedd yn ei ddangos. Gan ddechrau gyda'r gogledd-orllewin a symud i mewn tua'r gorllewin i'r de-ddwyrain.

Gogledd-orllewin Byddai llawer yn dymuno cadw'r trefi gwyliau gyda'i gilydd. Byddai hyn yn arbennig o wir yn ardal Conwy. O Landrillo-yn-Rhos i Bentre Mawr, ac yn arbennig felly wardiau Rhiw a Llandrillio-yn-Rhos. Gyda Llandrillio-yn-Rhos yn mynd tua'r dwyrain yn hytrach na thua'r gorllewin. Mae'n ardal adeiledig - un "cytref". Cadwch ddinas Bangor gyda'i gilydd, nid hollti dinas Bangor. Nid rhannu Arfon. Y gellir gweld yr ardal/ rhanbarth fel tri- (1) Arfordir- ar gyfer gwyliau (2) Mewndir-Ffermio (3) Trefi adeiledig (trefol). Yn bennaf trefi trefol yr ardal arfordirol a chefn gwlad gwledig yr ardal mewndirol. Gan fod Ynys Môn wedi cael statws arbennig mae hyn yn cyfyngu ac yn gwahardd posibiladau ar y tir mawr. Etholaeth dda fyddai Ynys Môn Bangor neu Arfon Ynys Môn.

Gogledd- ddwyrain Byddai'r rhai sy'n byw yno yn dweud yn cadw Rhyl a Phrestatyn gyda'i gilydd. Cadw holl dref Wrecsam gyda'i gilydd. Cadw y cyfan o'r gogledd-ddwyrain gyda'i gilydd. Felly mae de gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-ddwyrain canolbarth Cymru yn ddwy ran wahanol iawn. Ar ben hynny, nid oes cysylltiad (yn ffisegol, yn hanesyddol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol) rhyngddynt- rhannau ar wahân. Mae Mynyddoedd y Berwyn yn rhwystr naturiol – ffyrdd mynydd yn hynod o wael i gerbydau (ffordd bell galed i gerdded!). Mae'r rhannau hyn gogledd a de hyn yn wahanol iawn, heb unrhyw gysylltiadau rhyngddynt. Dim traddodiadau cyffredin, dim cysylltiadau rhwng y ddau bellach nac yn y gorffennol. Dylai etholaethau beidio â bod â rhannau sydd wedi'u datgysylltu. Mae sawl dewis arall sy'n osgoi hyn. Mae'r ddwy ran mewn dau ranbarth gwahanol iawn yng Nghymru. Y naill yn y gogledd-ddwyrain y llall yn y canolbarth. Defnyddio enwau priod. Nid yw Delyn yn enw; mae'n acronym. Dyma'r acronym Saesneg o ddwy lythyren gyntaf afon Dyfrdwy- De. a thair llythyren olaf yr afon Alun- lyn. Caiff y rhain eu rhoi at ei gilydd i ffurfio'r acronym Delyn. Dwy afon fawr o'r ardal yn Saesneg. Gan ddefnyddio enwau amgen (dwy iaith yn hafal) yna'r acronym Cymraeg fyddai Dylun. Dwy lythyren gyntaf Dyfrdwy a thair llythyren olaf Alun, y ddwy brif afon yno yn Gymraeg. Felly, y gair Cymraeg cyfatebol i Delyn Saesneg yw Dylun. Ar un ystyr mae'r un enw ag Alun a Glannau Dyfrdwy ond mewn ffurf wahanol a'r ffordd arall o gwmpas - y ddwy brif afon Alun a Dyfrdwy. Enwau Cymraeg sydd fwyaf addas efallai os ydych chi am ddefnyddio un. Ond yn sicr iawn enwau priod yn hytrach nac acronymau yn well ac i'w defnyddio. Hefyd,

pob etholaeth i gael enw sy'n unigryw iddo'i hun. Nid dim ond yr un enw/tebyg, ond ar ffurf arall a/neu'r ffordd arall rownd. Er bod Sir Ddinbych o fewn yr ystod etholiadol. Trwy ffurfio hon fel etholaeth mae'n golygu ei bod yn ei gwneud hi'n anodd i etholaethau eraill. Yn wir byddai angen hollti tref Wrecsam. Mae'n bwysicach cadw tref gyda'i gilydd yn hytrach nag ardal. Mae'n fwy priodol ac addas i wahanu trefi a phentrefi yn hytrach na hollti tref, a llawer haws. Felly mae angen rhannu'r tair ardal llywodraeth leol ymysg ei hetholaethau wrth ystyried yr holl etholaethau.

Y canolbarth Dyma'r rhan fwyaf denau ei phoblogaeth o Gymru. Felly gydag etholaethau bron iawn yn gyfartal yr etholaethau hyn fydd y mwyaf. Er nad y mwyaf yn y DU. A nunlle'n agos at y mwyaf a ganiateir. Mae'r canolbarth yn rhanbarth unigryw iawn yng Nghymru. Dyma'r mwyaf gwledig o bell ffordd. Mae bron pob un yn ffermio. Ni ellir dweud hyn am y rhanbarthau eraill. Y gorau i'r rhanbarth hwn fyddai bod â'i holl etholaethau o fewn y rhanbarth. Llawer gwell na rhannu gyda rhanbarthau eraill. Mae'r ddau ffactor uchod yn ddigon ynddynt eu hunain-mae eraill. Os yw etholaethau'r rhanbarth hwn i'w rhannu gyda rhanbarthau eraill mae angen iddyn nhw fod y mwyaf tebyg iddo a gyda chysylltiadau. Felly'r de-orllewin a'r gogledd-orllewin yw'r rhai mwyaf addas a phriodol ar ei gyfer. Mae dyffryn Dyfi yn ardal y gogledd-orllewin yn lens i hyn. Dyffryn Tywi a dyffryn Teifi yn y lens de-orllewinol i hyn. Yn aml iawn mae'r canolbarth a'r de-orllewin yn cael eu rhoi at ei gilydd. Y ffyrdd, symud pobl ac ati ac mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol a chyfeiriad gorllewin-de-orllewin.

De-orllewin Mae Sir Benfro ar flaen penrhyn y de-orllewin yn gwneud "uned" naturiol. Gogledd Sir Benfro, rhan y gogledd-orllewin- Tyddewi, Solfach, Treletert edrych i Hwlfordd. Maenclochog, Bryniau Preseli – rhan gogledd-ddwyrain edrych i Aberteifi. Felly, gogledd-orllewin Sir Benfro gyda gweddill Sir Benfro. Gogledd-ddwyrain Sir Benfro gyda Cheredigion. Gyda sir Gaerfyrddin mae dwy brif dref- tref Caerfyrddin a Llanelli. Mae'r rhain yn gwneud canolbwynt naturiol ar gyfer etholaethau. Yn wreiddiol roedd afonydd yn arfer bod yn rhwystr, ond gyda datblygiad dynol daeth pontydd. Roedd afonydd wedyn yn dod â phobl at ei gilydd. Yn wir, cyn ffurfio pontydd mae Cymru yn dangos hyn mewn sawl tref a dinas. Mae hyn yn wir gydag ardal tref Caerfyrddin. Nid yw afon Tywi yma yn rhwystr, mae'n dod â phobl at ei gilydd, felly Pen-sarn a Tre

gynnwr yn rhan fawr o dref Gaerfyrddin. Mae hynny'n golygu Llangynnwr i Gaerfyrddin. Nid yw'r afon yn llinell wahanu dda ar gyfer etholaethau (yma nac mewn lleoedd eraill yn y de-orllewin a Chymru). Mewn sawl ffordd mae Llanelli yn wahanol i weddill yr ardal, gan ei bod wedi'i lleoli yn y gornel de-ddwyrain. Ac yn ddiwylliannol debyg iawn i dde Cymru gyda'i hanes diwydiannol, fel gyda Rhydaman.

De'r canolbarth Cadw Abertawe, y ddinas ei hun, (cytref adeiledig) gyda'i gilydd mewn dwy etholaeth. Peidio â chymysgu rhannau o Abertawe/ Castell-nedd Port Talbot â Phowys (gwledig). Myals, Sgeti, Cilâ, Uplands gyda Chymuned y Mwmbwls (Oystermouth, Newton, West Cross) -Bae Abertawe. Ydy Afon Tawe yn ffin? Cadw Pen-y-bont ar Ogwr gyda'i gilydd- y dref i gyd gyda'i gilydd fel un. Mae Porthcawl yn agosach i Ben-y-bont ar Ogwr na Phort Talbot. Yna edrych i Ben-y-bont nid Port Talbot. Mae Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn fwy uniongyrchol ac yn haws i'w chyrraedd


- cysylltiadau. Mae Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl wedi bod gyda'i gilydd ers tro bellach. Yn y gorffennol barnwyd ei bod yn well iddi fynd i mewn gyda Phen-y-bont ar Ogwr. Mae gan Gwm Afan gysylltiadau ffordd a thrafnidiaeth gyhoeddus dda â Maesteg a Chaerau. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhedeg i mewn ac o gwmpas Maesteg i lawr ac i fyny Cwm Afan i Bort Talbot. Nid oes gan Gastell-nedd Port Talbot un etholaeth o drefi Castell-nedd a Phort Talbot gan ei fod yn gadael y ddau gwm arall allan ar eu pen eu hunain. Pob dyffryn i gael ei etholaeth ei hun gyda phob atodiad i'r dwyrain a'r gorllewin gydag ardaloedd cyfagos. Un cwm yn cael ychwanegiadau o ardal Pen-y-bont ar Ogwr, un cwm o Ardal Abertawe. Dim rhan o Gastell-nedd Port Talbot i gyfuno â Chanolbarth Cymru. Os rhywbeth, de-orllewin Powys (Cwm Tawe Uchaf) i naill ai gyfuno â Chastell-nedd Port Talbot neu Abertawe (Cwm Tawe). Cadw holl ddwyrain Bro Morgannwg gyda'i gilydd (trefol). Dinas Powys heb unrhyw gysylltiad naturiol â Chaerdydd. Yn wir, amryw o rwystrau. Rhaid mynd trwy Benarth neu Landochau. Mae Dinas Powys yn wledig, yn gwbl groes i Gaerdydd. Gan ei bod yn rhan o Gaerdydd, fe fyddan nhw ar eu colled. A bydd y Fro yn colli ei hunaniaeth ar wahân. Yna bydd ei endid ar wahân wedi mynd. Collwyd cyfran helaeth o'r Fro i Gaerdydd. Mae'r Fro yn cael llai o gynrychiolaeth, dryswch o ran pwy yw pwy, beth yw beth, ac ati. Caerdydd yn llawer mwy na'r Fro.

De-ddwyrain Mae gan y rhan hon ddwy o ddinasoedd modern Cymru a'r cymoedd. Mae'r rhain yn sylweddol yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r ddwy yn wahanol iawn. Felly yn naturiol byddai'r etholaethau'n disgyn i'r ddau fath yma- etholaethau dinesig ac etholaethau'r cymoedd. Does gan ddinasoedd Caerdydd a Chasnewydd ddim digon o boblogaeth/ etholwyr i ffurfio nifer gyflawn o etholaethau. Am atodiad byddai'n naturiol ac orau i'r rhain ychwanegu at ei gilydd. Mae gan ddinasoedd Caerdydd a Chasnewydd gyda'i gilydd ddigon o etholwyr/ poblogaeth i ffurfio nifer gyflawn o etholaethau. Gyda'r cymoedd nid oes gan bob cwm, heblaw am un (L(lwyd), y niferoedd i ddisgyn o fewn yr ystod etholiadol. Felly, mae'n rhaid ategu'r cymoedd ar gyfer yr ystod etholiadol hon. Oherwydd nifer yr etholaethau ar gyfer Cymru, ac er mwyn y cymoedd mae'n rhaid rhoi'r cymoedd yn chwe etholaeth. Mae ganddynt ddigon o etholwyr/ poblogaeth i wneud hyn ac nid oes angen iddynt gael eu hategu gan unrhyw un arall. Gan fod ganddynt ddigon i'w hunain, ni allant, ac ni ddylai ychwanegu at unrhyw un arall. Ceir hefyd Bro Wysg, sy'n gallu ffurfio ei etholaeth ei hun. Felly, nid oes rhaid i Ffynnon Taf a Phont-y-clun fod yn wardiau amddifad. Nid oes rhaid i Trowbridge fod yn rhan ar wahân. Does dim rhan o'r cymoedd yn cael eu colli o'r cymoedd, wedi'u colli i ran arall. Does dim angen unrhyw ran arall yn y cymoedd i gael ei hychwanegu atyn nhw. Yn yr un modd, gellir dweud hyn am y dinasoedd. Ni chollir unrhyw ran o'r ddinas i ran ddi-ddinas. Nid oes rhaid ychwanegu unrhyw ran nad yw'n ddinas i ddinas, megis Dinas Powys, Pont-y-clun, Ffynnon Taf, ac ati. Mae dinasoedd wedi'u cynnwys o fewn dinasoedd a dydyn nhw ddim yn tynnu, yn llawer mwy na rhannau eraill o Gymru. Cymoedd a phobl y Cymoedd yn unig sydd o fewn iddynt. Mae'r Cymoedd wedi'u cynnwys o fewn cymoedd, a dydyn nhw ddim yn colli eu hunigrywiaeth. Mae cymunedau a symudiadau'r cymoedd ar i fyny ac i lawr. Felly, mae etholaethau'r cymoedd yn hir a thenau yn dilyn y cymoedd- maen nhw fel cymoedd.

Mae pob etholaeth eisïau'r hyn maen nhw'n ei ystyried orau iddyn nhw. Ond yna byddai gennyh 32 set wahanol o 32 etholaeth. Felly mae'n rhaid i ni gyd dderbyn na allwn gael yr hyn rydyn ni'n ei ddymuno. Yr hyn rydyn ni'n ei ystyried orau i ni. Mae angen i bob un ohonom a dylen ni fod eisïau cael yr hyn sydd orau i bob un ohonom. Felly, pob un, mae pob un ohonom yn cyfaddawdu. Bydd hyn yn gwasanaethu Cymru yn ei chyfanrwydd. Hyd yn oed os nad oes gan bob etholaeth benodol yr hyn sydd orau iddyn nhw- yn union beth maen nhw eisïau. Mae'n rhaid i ni gyd gyfaddawdu. Mae canolbarth Cymru wedi cael ei wasgu'n aml. Wedi bod wrth wasanaethu'r rhanbarthau eraill i wneud yn iawn am niferoedd- eu niferoedd. Gyda lleihau etholaethau fe ddylai Canolbarth Cymru beidio â cholli allan. Ar hyn o bryd tair etholaeth yn unig sydd gan y canolbarth ar ei chyfer. Byddai dwy etholaeth ar gyfer Cymru yn unig yn ostyngiad o draean (33%). Bydd Cymru'n lleihau ei hetholaethau o 8 i 40. Mae hynny'n ostyngiad o bumed (20%). Gyda Canolbarth Cymru â dim ond dwy etholaeth i'w hun mae ganddi lawer mwy o ostyngiad na Chymru gyfan- 13% yn fwy, sy'n ostyngiad mawr mwy. Felly, dylai beidio â bod â llai. Felly, nid bod ag etholaethau wedi'u rhannu gyda rhanbarthau eraill. Er mwyn i'r canolbarth fod ag o leiaf dwy etholaeth i'w hun, i fod yn deg a chyfiawn iddi!

Mae angen enw ar bob etholaeth y gall pawb yn yr etholaeth uniaethu ag ef a'i adnabod. Sy'n nodi'r etholaeth honno. Ar gyfer hyn ac i ddangos undod, dylid defnyddio un iaith. Mae hyn yn rhoi hunaniaeth ac endid, gan ddod ag undod- un enw. Mae pob un yn ei adnabod wrth yr un enw. Dim camgymeriadau, dim cymysgedd. Yn ddelfrydol defnyddio enw un gair- byr a gryno. Os oes mwy nag un enw. Wedyn dim ond yr enwau hynny gyda'i gilydd, er enghraifft Dwyfor Meirionnydd. Nid yw hynny'n defnyddio cysylltnod, felly nid oes angen dau enw, dim ond oherwydd cysylltnod. Gan ei bod yng Nghymru ac ar ei chyfer dylai'r iaith o ddewis a ddefnyddir fod y Gymraeg o ran ysgrifennu a siarad. Defnyddir hyn bellach yn rhyngwladol ar gyfer siarad ac ysgrifennu e.e. Mumbai, Beijing. Felly nid oes angen enwau amgen. Mae hyn yn wir gyda/ yn yr Alban ers peth amser bellach e.e. Western Isles. Roedd wastad wedi cael ei hadnabod fel Western Isles, a dim ond yn y ffurf hon a ddefnyddiwyd. Yna penderfynodd yr Alban ddefnyddio'r Gaeleg ar ei chyfer. Daeth yn Na H-Eilearran An Iar. Erbyn hyn mae'n cael ei adnabod fel hyn a dim ond hyn. Fe'i defnyddir drwy'r DU gyfan. Does neb yn defnyddio Western Isles. Yr un modd, gyda/yn/dros Gymru. Un enw ar bob etholaeth. Yn y Gymraeg os yn bosib. Enwau etholaethau wedi'u ffurfio mewn ffordd addas a phriodol- ffordd etholaethol a phob un yn gallu adnabod ag un iaith (gan ddefnyddio sillafu Cymraeg). Pan mae dau enw ar etholaeth (enw amgen yn ogystal). Yna os nad ydych yn gwybod yr enw yn yr iaith arall gall enw arall fod yn ddryslyd. Nid yw yn aml yn gyfieithiad uniongyrchol. Maen nhw'n ddau enw gwahanol a chwbl ar wahân e.e., Casnewydd/ Newport. Wrth gyfieithu pob un mae gennyh bedwar enw. Mae angen iddyn nhw wybod enw'r etholaeth yn yr iaith arall h.y. y ddau enw. Felly mae angen i bawb (drwy'r DU) wybod dau enw pob etholaeth h.y. 64 o enwau! O ganlyniad, mae bod ag un enw mewn un iaith i bob etholaeth yn gwneud synnwyr. Ffurfir enwau etholaethau mewn ffordd etholaethol. Pob enw i'w drin yn yr un ffordd. Waeth pa fath yw'r enw / gair hwnnw. Sef a yw'n ganolfan poblogaeth, ardal cyngor, ac ati. Gall rhai enwau fod y ddau. O'r enw fel arfer ni allwch ddweud pa un ydyw. Byddai llawer o bobl yn gofyn pam ei wneud un ffordd os yw'r enw'n un math, ac eto'n ffordd arall os

yw'n fath arall? Pan fo gan enw etholaeth ddwy ran iddi mae un fel arfer yn addasu neu'n cymhwyso'r llall, ac yn ddibynnol ar y llall ac yn eilradd. Yr enw pwysicaf (gall fodoli ar ei ben ei hun) yw'r prif ran- y Prif enw, a daw'n gyntaf. Yr enw cymhwyso dibynnol addasu yw'r rhan eilaidd- yr is-enw, a daw'n ail, fel arfer nid yw'n gallu bodoli ar ei ben ei hun, nac yn golygu/ hunaniaeth yn unig, e.e. pwyntiau cwmpawd. Enw annibynnol yw Prif Enw. Ni all is-enw wneud y naill na'r llall o'r rheini ac mae'n addasu, yn cymhwyso'r Prif enw e.e. maestrefi, pwyntiau cwmpawd, ac ati. Felly mae'r mathau hyn o enw bob amser yn ddigonol. Mae'r Prif Enw bob amser yn rhagddodiad. Mae'n hawdd ei ddefnyddio. Pryd bynnag y mae person eisiau adnabod neu chwilio am yr etholaeth maen nhw'n mynd wrth y Prif enw. Dyma lle maen nhw'n mynd i ddod o hyd iddo. Ac fe fyddech chi'n dymuno i bob etholaeth sydd yno fod gyda'i gilydd mewn un lle. Nid ydych yn gwneud hyn gydag enw is-enw e.e. pwyntiau cwmpawd. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn dymuno gwybod yr holl etholaethau â Gorllewin yn eu henw, er enghraifft, Nid ydych yn chwilio am etholaethau "De_____". Fel arfer, nid yw hyn yn ddefnyddiol, Nid oes ei angen. Nid dyna y mae pobl yn chwilio amdano. Mae'n ddi-fudd- nid yw'n hawdd ei ddefnyddio. Byddai pob addaswr- pwynt cwmpawd, maestrefi, rhannau o ardal ac ati, yn dod yn olaf- yn ôl-ddodiad. Felly POB enw.



Mae enwau'n well na phwyntiau cwmpawd.

Mae Cymru'n gyfoethog iawn ei henwau.

Dylai pwyntiau cwmpawd beidio / byth gael eu defnyddio. Maent yn amheronol ac yn anwyddonol. Mae CYSYLLTEDD yn bwysig iawn, yn wir yn hanfodol. Lle nad oes hyn rydych chi'n cael rhannau ar wahân. Nid yw hyn yn ffurfio etholaeth hyfyw gydlynol dda. Yng Nghymru efallai mai mynyddoedd yw'r rhwystr mwyaf ar gyfer hyn. Mae'r 'Canllaw' yn mynd yn groes i hyn yn gryf . Sy'n iawn. Sut y gellir ei ystyried yn un etholaeth pan nad yw rhannau'n cysylltu?

Mae ffurfio set o etholaethau sy'n hyfyw i bob dull ac angen trin pob rhan/ ardal yn gyfartal ac yn deg. Addasiadau gan bawb, wedi'u cyfaddawdu gan bawb a wnaed. Mae angen cyfaddawdu, ac ati, gan bawb ar gyfer etholaethau priodol ac addas drwy Gymru. Rhaid ystyried anghenion etholaeth eraill. Felly, er enghraifft, trwy Sir Ddinbych y mae o fewn yr ystod etholiadol a gallai'r Awdurdod Lleol yma ffurfio etholaeth. Byddai hyn yn golygu bod angen i Wrecsam gael ei rhannu rhwng dwy etholaeth er mwyn bodloni'r amrediad etholaethol. Mae rhannu Sir Ddinbych (PEIDIO RHANNU TREFI) yn fwy ffafriol (i bawb) na rhannu tref Wrecsam. Ceir enghraifft arall gydag etholaeth Bro Morgannwg. Mae'r etholaeth hon o fewn yr ystod etholiadol. Mae cadw'r etholaeth hon yn ei gwneud hi'n anodd iawn ffurfio etholaethau hyfyw da eraill sy'n ei ffinio. Felly, mae'n rhaid ystyried etholaethau eraill a sgil effeithiau bob amser. Mae hyn yn cyfyngu ac yn lleihau dewisiadau sydd ar gael. Mae angen set o "etholaethau cytbwys" ac mae'n rhaid gweithio i'w cael.

LLEIHAD UNFFURF YM MHOB RHAN O GYMRU, a phob rhan o Gymru yn cael ei chynrychioli'n gyfartal.

Mae gwahanol ffordd y gellir trefnu / rhoi dilyniant i etholaethau e.e. yn nhrefn yr Wyddor, yn Ddaeryddol, ac ati. Gan fod pobl fel arfer yn ymddiddori yn eu hetholaeth a'r un gyfagos yna mae daeryddol yn fwy buddiol. Gyda gwahanol ieithoedd byddai gan yr etholaethau wahanol drefn / dilyniant yn dibynnu ar iaith (yr un a ddefnyddir) wrth ei gwneud yn nhrefn yr wyddor. Felly, am y rhesymau hyn ac eraill mae'r ffordd ddaeryddol yn cael ei ffafrio, dyma'r ffordd ADDAS I DDEFNYDDWYR. Yn amlwg, mae'n addas iawn ac yn wir yn fwyaf priodol os ydych chi'n defnyddio mapiau- daeryddol yw'r ffordd.

O'r uchod mae pob un yn gwneud cyfaddawd. Ni fyddai'n iawn nac yn deg pe bai dim ond rhai yn gwneud hyn. Eraill yn cael eu trin yn ffafriol pan gawson nhw eu trin yn anffafriol. Un yn cael y betiau iddyn nhw ar draul un arall. Yr unig beth sy'n rhaid i'r Comisiwn ei wneud yn ôl y gyfraith ar gyfer etholaethau yw eu cael o fewn yr ystod etholiadol- rhaid gwneud hyn. Dim byd i'w wneud â cwota etholiadol nac amrywiant. Cymryd sylw o gysylltiadau lleol, awdurdodau lleol, etholaethau yn ogystal ag ystyriaethau daeryddol, cymdeithasol, diwylliannol ac ati. Yng Nghymru mae'n annhebygol iawn bod Awdurdodau Lleol ac etholaethau efallai yn ffafrio eu rhoi yn y drefn sydd fwyaf addas ar gyfer yr etholaethau yn y dyfodol. Y pwysicaf yw cysylltiadau lleol. Nesaf mae'r cysylltiadau lleol awdurdod lleol gan eu bod yn adlewyrchu cymunedau. Rhaid i Awdurdodau Lleol ar gyfer AS ddelio â nhw. Felly trefn / trefn blaenoriaeth yw 1) Cysylltiadau lleol 2) Awdurdod lleol 3) Etholaethau (cyfredol). Hefyd, wrth gwrs mae'n rhaid ystyried etholaethau eraill (newydd). Rhoddwyd dwy enghraifft uchod. Hefyd, mae angen cynrychioli pob rhan o Gymru yn gyfartal. Felly, lleihad unffurf ym mhob rhan o Gymru.

Gogledd Cymru 10, Canolbarth Cymru 7, De Cymru 23

Ar hyn o bryd yn rhoi 40 etholaeth i gyd.

Gogledd Cymru 8, Canolbarth Cymru 6, De Cymru 18

Yn y dyfodol rhoi 32 etholaeth i gyd.

Gogledd Cymru- Gogledd-ddwyrain a Gogledd-orllewin

Canolbarth Cymru – Canolbarth a De-orllewin

De Cymru – Canol y De a De-ddwyrain

Heblaw am Ynys Môn bydd pob etholaeth yn newid ac yn wahanol i'r rhai presennol. Gan fod yr etholaethau'n wahanol i'r enwau ar hyn o bryd dylen nhw gael enwau gwahanol? Nid yn unig fyddan nhw'n etholaethau San Steffan gwahanol. Fe fyddan nhw hefyd yn wahanol i etholaethau'r Senedd. Gallai bod â'r un enwau ag etholaethau'r Senedd arwain at gymysgedd yn hawdd. Yn sicr, bydd yn ddryslyd. Felly, dylai etholaethau San Steffan a'r Senedd beidio â bod â'r un enw. Byddai'n

gliriach, yn fwy unigryw, ac yn rhoi hunaniaeth unigryw iddyn nhw pe baen nhw'n wahanol i'w henwi'n wahanol. Felly dylai fod enwau gwahanol ar etholaethau San Steffan ac etholaethau'r Senedd. Os oes gan Senedd y DU a Senedd Cymru enwau etholaethau gwahanol. Mae hyn yn wir am yr Alban. Yn wir, yn yr Alban yn ôl y gyfraith ni all y ddwy etholaeth Seneddol fod â'r un enw. Dylen ni wneud hyn yng Nghymru. Y Senedd i gyflwyno Deddf sy'n gwahardd etholaethau'r ddwy senedd rhag cael yr un enw- trwy statud. Enwau etholaethau'r Senedd. Enwau etholaethau San Steffan.

Yn ôl natur a chymeriad yr etholaethau a'r hyn maen nhw'n ei gyfansoddi sy'n rhoi mathau etholaethol. Yng Nghymru ceir amryw o fathau. Mae'r rhain yn cynnwys etholaeth Ynys, Etholaethau'r Cymoedd, Etholaethau Tref(i), Etholaethau Dinas, Etholaethau Cefn Gwlad ac yn y blaen. Yn fras gellir rhannu etholaethau i etholaethau Trefol a Gwledig. Mae pa mor wledig ydynt yn effeithio ar aelod yr etholaeth yn ariannol. Dynodir pob etholaeth naill ai yn 'etholaeth fwrdeistrefol' neu yn 'etholaeth sirol'. Y ffactor nodedig hwn yw, 'mwy nag elfen fach wledig' byddant yn cael eu hystyried yn etholaeth sirol. Felly, 'etholaethau sirol' fydd y rhai sydd ag elfen wledig ganolig. Bydd pob un arall yn 'etholaethau bwrdeistrefol'. Ond beth yw 'elfen wledig ganolig'? Pwy sy'n penderfynu? Bydd yn amrywio rhwng y rhai hynny sy'n penderfynu. Felly ni fydd yn safonol. Nid o fewn Senedd y DU. Felly, mae angen ffordd fwy union. Yn yr "amseroedd gwyddonol" hyn byddai angen ffordd fwy union o fesur. Gan ei fod i weinyddu treuliau teithio. Yna byddai maint a dwysedd yn ddau ffactor. Gan fod etholaethau ond yn amrywio 10%. Felly, byddai maint yn ddigon i bennu hyn. Felly, byddai maint yr etholaeth yn penderfynu ar dreuliau teithio ac felly cyllid a dderbyniwyd. A fyddai angen felly i'w rhannu'n ddau fath? Os na ddefnyddir graddfa llithro, yna efallai dwy neu dair adran. Byddai'r rhai uwchben maint penodol yn cael y mwyaf, yna ystod ganolradd, yna'r lleiaf- felly tri band ar gyfer ariannu etholaethau yn seiliedig ar faint etholaethol.

Gan ein bod yn defnyddio mapiau, yna fel y dywedir uchod (gweler tudalen 7), yna bydd y ffordd ddaearyddol yn cael ei defnyddio. Gan ddechrau gydag Ynys Môn, yr etholaeth warchoddedig. Bydd y rhifo yn mynd tua'r dwyrain, yna tua'r gorllewin; am yn ail, tua'r de nes gorchuddir Cymru gyfan. Bydd y 32 o etholaethau arfaethedig yn cael eu llunio o wardiau etholiadol, yn cael enw ac yn cael eu hesbonio. Bydd map braslunio yn dangos braslun o'r etholaeth. Y rhifau yw niferoedd yr etholwyr cofrestredig. Nid yw'r rhain yn adlewyrchu yr holl bobl o oed pleidleisio (18 a hŷn) ar adeg benodedig Deddf y Senedd. Ac mae cywirdeb etholwyr cofrestredig yn hyfyw. Mae'r cynrychiolwyr (AS) yn cynrychioli pawb dros 18 oed yn yr etholaeth. Nid dim ond yr etholwyr cofrestredig. Felly, mae gwir gynrychiolaeth etholwyr etholaeth (yr etholwyr a phobl y mae pob AS yn eu cynrychioli) yn cael ei wneud orau gan y boblogaeth na chan yr etholwyr. Felly, i gael niferoedd y boblogaeth yn hytrach na niferoedd yr etholwyr. Mae cynrychiolwyr (ASau) yn cynrychioli POB person/ aelod o etholaeth. NID DIM OND y rhai sydd wedi cofrestru i bleidleisio. Felly nid yr etholwyr cofrestredig ond y boblogaeth. Mae ffigyrau'r boblogaeth yn fwy unffurf ledled y wlad na ffigyrau'r etholwyr. Mae niferoedd y boblogaeth yn fwy cywir na niferoedd etholwyr. DYLAI HYN FOD YR ADOLYGIAD OLAF SY'N DEFNYDDIO NIFEROEDD ETHOLWYR. Mae ffigyrau poblogaeth yn adlewyrchu'r bobl y mae'r ASau'n eu

cynrychioli yn hytrach na ffigyrau'r etholwyr. Mae ffigyrau poblogaeth yn fwy cywir na ffigyrau etholwyr. Ffigwr mwyaf cywir y boblogaeth yw'r cyfrifiad. Mae'r cyfrifiad yn digwydd bob deng mlynedd. Dywedwyd (gan gorff rhyngwladol) nad yw deng mlynedd, yn sicr bellach, ar gyfer pethau o'r fath. Yr amser mwyaf rhwng adolygiadau. Ffigurau'r cyfrifiad i'w defnyddio fydd y gorau, mwyaf cywir, ac yn adlewyrchu ac yn dangos pob etholaeth, yr holl etholaethau, yn fwyaf gwir a gorau. Gan mai nhw yw'r ffigyrau mwyaf cywir sydd gennym ni ar gyfer etholaethau defnyddiwyd ffigyrau'r cyfrifiad. Mae'r ffigyrau'n cael eu cyhoeddi tua blwyddyn wedi'r cyfrifiad. Mae'n ddigon posib y bydd technoleg fodern yn cyflymu hyn. Rydym yn cynnal ein cyfrifiad yn y blynyddoedd sy'n gorffen gydag un. Felly, gall pob adolygiad ddigwydd yn y blynyddoedd sy'n gorffen gyda dau. Bydd yr adolygiad nesaf yn dechrau yn 2032. Fel arfer, mae adolygiadau'n cymryd dwy a hanner i dair blynedd. Felly yr adolygiad nesaf fyddai 2035, fydd yn dechrau yn 2032. O bosib gallai hyn fod yn gynharach os yw technoleg yn cyflwyno rhyddhau/ ffurfio'r ffigurau cyfrifiad penodol hyn. Mae disgwyl i'r adolygiad nesaf presennol yn ôl y ddeddfwriaeth bresennol gael ei chynnal yn 2031. Byddai deddfwriaeth sy'n newid y niferoedd ar gyfer etholaethau o etholwyr i boblogaeth hefyd yn datgan defnydd o'r cyfrifiad ac mae'r adolygiad etholaethol yn dechrau ar unwaith mae niferoedd ar gael. BYDDAI ADOLYGIADAU FELLY YNG NGHANOL DEGAWD AM BOB DEGAWD.


Oherwydd y dyddiad adolygu presennol a dyddiad y cyfrifiad, mae hyn yn gwneud yr adolygiad nesaf yn hirach na'r ddeddfwriaeth gyfredol. Ond byddai gwneud hyn naill mewn amser byrrach neu amser hirach yn arwain at y newid hwn yn dibynnu ar y ddau ddyddiad hynny uchod. Erbyn hyn mae'n ei ymestyn yn hytrach na'i fyrhau. Ond nid yw ei hyd mor hir â llawer o ddyddiadau adolygu a'u ysbeidiau yn y gorffennol. Yr adolygiad presennol yw un ohonyn nhw. Ar ôl hyn, yna byddent unwaith y ddegawd yn dilyn y cyfrifiad, gan ddefnyddio rhifau'r cyfrifiad. Felly, am y tro cyntaf bydd gennym y ffigyrau gwiraf ar gyfer pwyl fydd ein ASau yn eu cynrychioli. Mae'r UDA eisoes yn gwneud hyn- yn defnyddio ffigurau ei gyfrifiad, gan adolygu ar ôl y rhain, unwaith bob 10 mlynedd. Gan fod gan y rhan fwyaf o'r byd yn cynnal eu cyfrifiad yn y flwyddyn sero, blwyddyn gyntaf y ddegawd. Yna efallai ar gyfer ein cyfrifiad nesaf byddem am wneud hyn, a chael deddfwriaeth sy'n newid ein blwyddyn gyfrifiad o'r flwyddyn un i'r flwyddyn sero. Byddai hynny wedyn yn byrhau'r egwyl rhwng yr adolygiad hwn a'r adolygiad nesaf. Mae'n debyg bod yr adolygiad wedi dechrau yn 2031 ar gyfer 2034.

Gogledd Cymru

(7 etholaeth)

N.B. Mae Meirionnydd wedi cael ei osod gyda'r Canolbarth am ran helaeth o'r gorffennol. Yn wir, pan ffurfiodd y Senedd ranbarthau, gosodwyd ran Meirionnydd o Wynedd yn / gyda'r Canolbarth. Yma, yn yr un modd, nid yw Meirionnydd gyda/ yng Ngogledd Cymru ond mae gyda'r Canolbarth yng Nghanolbarth Cymru (gweler isod).

1. Ynys Môn (52,415)



NID I RADDFA

Dynodiad: Ynys Môn, enw'r ynys a'r cylch.

Eglurhad: Yr etholaeth yw ardal yr awdurdod lleol sef yr ynys. Oherwydd ei bod yn ynys mae'n cael ei gwarchod. Dyma'r unig ardal warchodedig, yr unig etholaeth warchodedig, yng Nghymru.



**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru